



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle

Mawrth 2016

Paratowyd y canllaw hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Gomisiwn Dylunio Cymru.

Cynnwys

Adran 1 Gosod yr olygfa

Mae'n bwysig darllen hwn unwaith

- 1.1 Pwrpas y canllaw
- 1.2 Cyd-destun polisi
- 1.3 Pennu a dewis safle
- 1.4 Gweledigaeth a briff
- 1.5 Dadansoddi safle a chyd-destun
- 1.6 Cyfarfodydd cyn ymgeisio a rhwymedigaethau statudol

Adran 2 Canllawiau

Cyfeiriwch at y rhain wrth gynnal neu adolygu dadansoddiad o safle a chyd-destun

Cyflwyniad

- 2.1 **Diwylliant a Chymuned**
 - 2.1a Lleoliad y safle
 - 2.1b Cyd-destun cynllunio
 - 2.1c Y defnydd o'r tir a'r adeiladau amgylchynol
 - 2.1ch Adeiledd y gymdogaeth
 - 2.1d Ymgynghori ac ymgysylltu
 - 2.1dd Economeg gymdeithasol
 - 2.1e Dadansoddiad o'r farchnad
- 2.2 **Tirwedd**
 - 2.2a Topograffi
 - 2.2b Seilwaith gwyrdd a glas
 - 2.2c Ecoleg
 - 2.2ch Cyflwr y ddaear
 - 2.2d Microhinsawdd
- 2.3 **Symud a Seilwaith**
 - 2.3a Hierarchaeth ffyrdd a mynediad
 - 2.3b Trafnidiaeth gyhoeddus
 - 2.3c Cyfleustodau a seilwaith
- 2.4 **Ffurf adeiledig**
 - 2.4a Ffurf drefol
 - 2.4b Hanes ac archaeoleg
 - 2.4c Graddfa, uchder a dwysedd yr adeiladau
 - 2.4ch Cymeriad adeiladau a thraddodiadau adeiladu

Adran 3 Hysbysu Dylunio

- 3.1 Deall y casgliadau
- 3.2 Diffinio'r ardal ddatblygu
- 3.3 Mireinio'r weledigaeth
- 3.4 Rhoi cysyniadau a syniadau ar brawf
- 3.5 Fframwaith dylunio safle
- 3.6 Cais cynllunio
- 3.7 Canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol

Atodiad 1

Darllen ychwanegol

Atodiad 2

Offer dadansoddi a chyflwyno

Astudiaethau Achos

- 1 Gwledig, cyrion pentref
- 2 Mewnlenni trefol
- 3 Plot yng nghanol tref



0

Amlinelliad o'r ddogfen

Mae'r diagram uchod yn nodi'r camau yn y broses ddylunio a chynllunio ble mae dadansoddi'n berthnasol. Mae'r canllaw hwn wedi ei strwythuro o gwmpas camau'r broses hon a bydd y diagram ar bob tudalen yn eich helpu i lywio drwy'r camau y dewch ar eu traws. Mae Adran 1 yn amlinellu'r ystyriaethau sy'n berthnasol i'r camau sy'n arwain at ddadansoddi safle a chyd-destun. Mae Adran 2 yn y ddogfen yn cyflwyno ymagwedd at ddadansoddi safle a chyd-destun ac mae'n mynd i'r afael â'r amrywiol agweddau i'w hystyried. Yn olaf mae Adran 3 yn canolbwyntio ar sut mae'r dadansoddiad yn sail i fframwaith dylunio, cynigion dylunio a'r cais cynllunio.

Dylai amcanion dylunio da, fel y'u disgrifir mewn polisi cynllunio cenedlaethol, gael eu sianelu i broses integredig o ddadansoddi a dylunio sy'n cynnwys cyfarfodydd cyn ymgeisio gydag awdurdod cynllunio, ac ymgynghori gyda Chomisiwn Dylunio Cymru ar y camau priodol. Pan wneir cais cynllunio, mae'n bwysig bod y deunydd a gyflwynir yn cyfleu'r broses o ddadansoddi safle yn glir ac yn gryno, ynghyd â sut mae wedi bod yn sail i'r dyluniad. Bydd hyn yn cynorthwyo'r awdurdod lleol wrth asesu'r cynnig a gwneud penderfyniad ar y cais. Felly, mae'r ddogfen hon yn berthnasol i ymgeiswyr a'u timau prosiect ynghyd ag i gynllunwyr mewn awdurdodau lleol.

Mae dadansoddi safle a chyd-destun da yn gam hollbwysig er mwyn cyflawni dylunio da yn y broses gynllunio.

Adran 1



1

Gosod yr olygfa

Mae dadansoddi safle yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio a dylunio. Nid oes unrhyw ddatblygiad yn digwydd ar ei ben ei hun – dylanwedir arno gan gyflwr y safle, ac yn ei dro, bydd yntau'n effeithio ar ei gyd-destun. Mae dadansoddi safle a chyd-destun da yn creu'r sylfaen i ddylunio da.

1.1

Pwrpas y canllaw

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n comisiynu, yn cyflawni ac yn adolygu cynigion datblygu, ac mae'n berthnasol i ddatblygiadau o bob math a graddfa. Mae'n argymhell dadansoddiad trylwyr, cymesur o safle a'i gyd-destun fel rhan annatod o'r broses ddylunio. Gellir defnyddio casgliadau'r dadansoddiad fel sail i fframwaith dylunio a fydd, pan gaiff ei gyfuno â dylunio trefol allweddol ac egwyddorion pensaernïol, yn sefydlu'r paramedrau ar gyfer datblygu. Dylai'r canlyniad fod yn ddull o weithredu sy'n mwychu potensial y safle ac a gyflwynir yn glir mewn cais cynllunio.

“Ni ddylai dylunio sy'n amhriodol yn ei gyd-destun, neu nad yw'n manteisio ar gyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a swyddogaeth ardal, gael ei dderbyn oherwydd bydd yn cael effaith niweidiol ar gymunedau sy'n bodoli yn barod.”


TAN 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru, para 2.6

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ymagwedd, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, at gynnal dadansoddiad safle sy'n berthnasol ac yn esboniadol i ategu pob cynnig datblygu.

Bydd dadansoddi trylwyr yn helpu i greu'r gwerth gorau o ran y safle ac yn osgoi gwaith drud a di-fudd. Mae'r diagram yn Ffigwr 1 yn helpu i enghreifftio'r cynnydd mewn effeithiolrwydd cost wrth nodi nodweddion y safle a'i gyd-destun sy'n ychwanegu at werth y prosiect ar gam gynnar, tra bod nodi cyfyngiadau yn ddiweddarach yn y broses ond yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ychwanegu gwerth. Dylai cynnal dadansoddiad safle da arwain at ddylunio o well safon a phroses gynllunio fwy llyfn.

Ffig 1.

Mae'r graff cost/gwerth yn dangos sut gall dadansoddiad safle da yn gynnar yn y broses ddylunio ychwanegu gwerth at ddatblygiad, tra gall nodi cyfyngiadau safle yn ddiweddar yn y broses fod yn gostus a chreu oedi



Gall cynigion sy'n seiliedig ar ddadansoddiad da o safle a chyd-destun feddu ar lawer o fanteision, yn cynnwys:

- **Gwell gwerth** – gellir mwyhau gwerth y safle trwy nodi ei asedau a'i botensial
- **Gwell cynaliadwyedd amgylcheddol** – mae rhoi ystyriaeth gynnar i hinsawdd, cyfeiriadaeth a chynllun yn hanfodol i gyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol
- **Gwell cysylltedd** – cyfleoedd i greu llwybrau trefnus, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, a cherdded a beicio diogel a phleserus, sy'n arwain at aneddiadau mwy cynaliadwy
- **Gwell hygyrchedd** – gwneir penderfyniadau cynnar i sicrhau bod y datblygiad yn hygyrch i bawb
- **Gwell iechyd a lles** – gall ystyriaethau ansawdd bywyd fod yn fuddiol i drigolion a/neu i ddefnyddwyr eraill y datblygiad
- **Gwell ymdeimlad o le** – mwyhau'r defnydd o nodweddion presennol i roi hunaniaeth i'r datblygiad
- **Gwell effeithiolrwydd cost** – osgoi gwaith di-fudd a'r gost o ymateb i gyfyngiadau yn ddiweddarach yn y broses
- **Gwell diogelwch** – bydd ymateb i gyd-destun y safle yn helpu i greu datblygiad mwy diogel

Mae dylunio da yn gwneud popeth yn well.

**Ffig 2.**

Mae adeilad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd yn defnyddio'i leoliad yn agos i ddŵr a pharc i greu mannau allanol deniadol. (c) Flanagan Lawrence

**Ffig 3.**

Cafodd dyluniad y Galeri, sy'n edrych dros Ddoc Fictoria, Caernarfon, ei ysbyrdoli gan ei leoliad ar y doc a'r adeiladau o'i gwmpas. (c) Penseiri Richard Murphy

**Ffig 4.**

Mae gan Ysgol Craig y Deryn yn Eryri berthynas gref â'r dirwedd o'i hamgylch ac roedd hon yn ystyriaeth sylfaenol wrth ddylunio'r adeilad mewn perthynas â'i gyd-destun. (c) James Morris





1.2

Cyd-destun polisi

Disgrifir amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer dylunio da yn y ddogfen *Polisi Cynllunio Cymru* ac yn y *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio*. Mae'r diwethaf yn disgrifio dylunio fel proses o ddadansoddi a syntheseiddio ble caiff materion eu nodi ac atebion eu pennu drwy'r broses ddylunio. Mae'r canllaw hwn yn cefnogi ac yn ymhelaethu ar Bennod 4 *TAN 12* mewn perthynas ag arfarnu cyd-destun.

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu disgwyliadau a chanllawiau sy'n fwy penodol i'r ardal leol. Dylid cynnal adolygiad o'r canllawiau cynllunio lleol fel rhan o'r broses ddadansoddi.

Bwriedir i'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio ar y cyd â *Chanllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy* Llywodraeth Cymru, sy'n annog rhoi ystyriaeth gynnar i gynaliadwyedd ar y cam dadansoddi safle. Mae llawer o gyhoeddiadau, safonau a chanllawiau y mae'n ddefnyddiol cyfeirio atynt, ac nid bwriad y canllaw hwn yw ailadrodd manylion a gyhoeddwyd yn rhywle arall, ond yn hytrach darparu croesgyfeiriadau perthnasol yma yn Adran 2 a fydd yn sefydlu cysylltiad clir gyda'r canllawiau a'r llenyddiaeth sydd ar gael yn barod.

Bydd dadansoddi safle yn helpu i gyflawni'r lefelau perfformiad a ofynnir gan y Rheoliadau Adeiladu ac i gyrraedd targedau cynaliadwyedd a hygyrchedd ehangach. Bydd nodi cyfyngiadau a chyfleoedd safle yn gynnar, a chynllun safle deallus, yn mwyhau cynaliadwyedd, hygyrchedd, diogelwch a gwerth am arian.



1.3

Pennu a dewis safle

Mae dewis safle yn ffactor pwysig yn llwyddiant datblygiad ac ar gyfer twf cynaliadwy o ran aneddiadau. Dylai'r broses o nodi safleoedd addas ar gyfer datblygiad newydd sylweddol fod yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o'r cyd-destun ar raddfa anheddiad cyfan. Bydd dadansoddi'n helpu i ddangos pa mor dda mae'r cysylltiadau i'r safle, hygyrchedd y cyfleusterau, a chapasiti'r safle.

Gall y dull o weithredu a gefnogir yn y canllaw hwn helpu awdurdodau lleol i adolygu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n ymgodi mewn safleoedd datblygu arfaethedig yn ystod y broses baratoi ac adolygu CDLI, a hefyd i gynhyrchu neu adolygu briffiau neu uwchgynlluniau dylunio ar gyfer safleoedd a glustnodwyd (gweler adran 3.7).

Yn yr un modd, gallai datblygwyr sy'n ystyried safleoedd amgen gael budd o adolygu'r opsiynau yn erbyn y ffactorau a amlygir yn yr adran nesaf yn y ddogfen hon.

Dylai dadansoddi safleoedd ar y cam hwn ystyried y cyfleoedd a gyflwynir gan y safle i greu datblygiad unigryw a chynaliadwy o safon uchel. Dylid dadansoddi'r cyfyngiadau yng ngoleuni'r cyfleoedd, gan fod dylunio da yn aml yn ymgodi fel ymateb creadigol i gyfyngiadau.



1.4

Gweledigaeth a briff

Weithiau gellir anghofio pa mor bwysig yw gweledigaeth prosiect. Mae gweledigaeth a briff clir ar gyfer prosiect yn hanfodol i sicrhau bod pawb sydd ynghlwm yn gwybod beth mae'r prosiect yn ceisio ei gyflawni. Bydd briff ymarferol yn disgrifio'r gofynion perfformiad, arwynebedd y lloriau, nifer yr unedau a'r mathau o adeiladau a'u defnydd. Dylai'r weledigaeth roi disgrifiad cryno o ba fath o le fydd y datblygiad. Wrth gynllunio ar gyfer dadansoddi'r safle a'r cyd-destun, dylai'r tîm dylunio gadw'r weledigaeth a'r briff mewn golwg.

Efallai bydd gan gleient weledigaeth a briff cychwynnol ers y camau cynnar. Dylai'r tîm dylunio a benodir fedru gweithio tuag at y weledigaeth honno drwy'r broses ddylunio. Fodd bynnag, dylai'r tîm dylunio ddefnyddio'u sgiliau a'u profiad i ddatblygu'r briff a'r weledigaeth gyda'u cleient, trwy gamau iterus y prosiect.

Enghraifft o weledigaeth

Mae'r canlynol yn enghraifft dda o weledigaeth ar gyfer ehangiad defnydd cymysg i anheddiad:

“Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnig amrediad o adeiladau preswyl, busnes a defnydd cymysg sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau'r dinasyddion lleol ac sy'n fuddiol i'r economi. Ein nod yw osgoi blerdwf gwastraffus, gyda'r bwriad o ddarparu lle mwy dwys, mwy cynaliadwy sydd ag amrywiaeth o fannau cyhoeddus, yn cynnwys strydoedd, sgwariau a gerddi. Y dyhead yw creu cymdogaeth gynaliadwy sy'n annog cerdded, ac sy'n cadw ac yn gwella'r ardal cadwraeth natur bresennol. Bydd yn cyfuno buddion traddodiadol swbwrbia – tŷ, gardd, preifatrwydd, tawelwch – a'r buddion a rennir mewn dwyseddau uwch sy'n cynnwys seilwaith ac adnoddau cyhoeddus.”

Mitchel Eley Gould



1.5

Dadansoddi safle a chyd-destun

Mae cynnal neu adolygu dadansoddiad o safle a chyd-destun yn golygu cyfraniad gan ddylunwyr, cynllunwyr ac, yn dibynnu ar raddfa a natur y datblygiad, amrywiaeth o ymgynghorwyr arbenigol. Gallai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ecolegwyr
- Tyfwyr coed
- Penseiri tirwedd
- Arolygwyr tir
- Archaeolegwyr
- Ymgynghorwyr trafnidiaeth
- Syrfewyr yn y farchnad eiddo
- Hydrolegwyr
- Peirianwyr amgylcheddol
- Ymgynghorwyr acwsteg

Ble mae prosiect yn fawr neu'n gymhleth, mae'n bwysig bod y mewnbwn gan arbenigwyr yn cael ei gydgyssylltu'n effeithiol fel y ceir gwybodaeth ynglŷn â'r safle mewn dull amserol ac esboniadol. Dylai'r dasg o gydgyssylltu gael ei chyflawni gan y dylunydd/tîm dylunio, yr ymgynghorydd cynllunio, y cleient neu'r rheolwr prosiect.

Yn yr hanfod, mae'n bwysig bod gan y dylunydd/dylunwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r safle a'r cyd-destun er mwyn medru llywio'r dylunio a'r sail resymegol y tu ôl i'r cynigion datblygu.

Mae Adran 2 yn y ddogfen hon yn darparu canllawiau manwl ar ddadansoddi safle a chyd-destun.



1.6

Cyfarfodydd cyn ymgeisio a rhwymedigaethau statudol

Mae Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 yn gosod darpariaethau cyn ymgeisio newydd yn eu lle sy'n amodi bod awdurdodau cynllunio lleol yn darparu gwasanaethau cyn ymgeisio i ymgeiswyr. Gellir defnyddio'r canllaw hwn i annog trafodaethau ar y cam cyn ymgeisio i sicrhau bod dadansoddi priodol wedi digwydd a'i fod yn sail i'r cynigion datblygol (gweler Adran 3.7).

Mewn rhai achosion, bydd yna rhwymedigaeth statudol i gyflawni mathau penodol o arolwg neu ddadansoddiad sy'n ategu cais cynllunio. Mae pob awdurdod cynllunio lleol yn pennu'r gofynion lleol o ran gwybodaeth ategol, yn cynnwys rhai sy'n golygu dadansoddiad safle arbenigol, a bydd y rhain yn amrywio yn ôl graddfa, natur a lleoliad y cais. Mae ymgynghori cyn ymgeisio gyda'r awdurdod cynllunio lleol yn bwysig er mwyn cadarnhau pa wybodaeth yn union sydd ei hangen.

Gallai'r gofynion lleol sy'n gofyn dadansoddiad arbenigol o safle a chyd-destun gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Asesiad Canlyniadau Llifogydd
- Asesiad Coedyddiaeth
- Arfarniad o Ardal Gadwraeth
- Asesiad Ecolegol
- Asesiad o Effaith Manwerthu
- Asesiad Trafnidiaeth

Mae'n rhaid cyfuno casgliadau'r asesiadau hyn ag astudiaethau safle eraill.

Os yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, efallai bydd angen Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (AEA). Yn y lle cyntaf, dylai'r datblygwr gyflwyno cais am sgrinio i'r awdurdod lleol i benderfynu p'un ai fod angen AEA. Ar ôl hyn, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi barn gwmpasu sy'n amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu yn ystod yr AEA a'i chyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol. Rhoddir dolen i reoliadau AEA yn Atodiad 1.

Adran 2

2

Canllawiau

Mae'r rhan hon yn disgrifio ymagwedd at y broses o ddadansoddi safle a chyd-destun.

Mae llawer o ffactorau sy'n gwneud safle'n unigryw. Mae'r rhain yn ymwneud â'r dirwedd, yr adeiladau a'r adeileddau ar, ac o gwmpas y safle, y bobl sy'n byw yn yr adeiladau ac sy'n defnyddio'r mannau agored, a'r ffordd maent yn symud at, a thrwy'r safle. Mae dylunio da yn ymateb i'r nodweddion hyn y dylid eu nodi a'u dehongli drwy'r broses ddadansoddi.

Nodwch y testunau y mae angen eu dadansoddi (ni fydd pob testun yn berthnasol)

Arsylwch, ymchwiliwch a chofnodwch – plotio, mapio, lluniadu ac ati

Nodwch y pynciau i'w dadansoddi: Mae'n bwysig bod y dadansoddiad a gynhelir yn addas ar gyfer briff y prosiect a graddfa a natur y safle. Bydd datblygiad o 1,000 o gartrefi ar safle maes glas yn gofyn ystyriaethau sy'n wahanol i gynnig ar gyfer ysgol newydd canol dinas, er enghraifft. Dylai'r tîm prosiect ganfod y blaenoriaethau a chynnal dadansoddiad safle sy'n addas ac yn esboniadol ar gyfer pob prosiect unigol. Ni ddylai timau rheoli datblygiad ddisgwyl o reidrwydd bod pob testun yn cael ei gwmpasu yn y ddogfennaeth sy'n ategu cais cynllunio os nad yw pob un ohonynt yn berthnasol. Efallai bydd materion safle-benodol hefyd, na chânt eu trafod yn y canllaw hwn, ond sy'n hanfodol i sefyllfa benodol.

Arsylwch, ymchwiliwch a chofnodwch: Y cam cychwynnol yn y broses ddadansoddi yw nodi beth sy'n bodoli'n barod gan ddefnyddio ymchwil, arsylwi ac arolygon. Mae treulio amser ar y safle ac yn y cwmpasoedd yn rhan hanfodol o'r broses hon. Gellir mesur rhai agweddau o ddadansoddi a'u cofnodi'n ffeithiol, ond mae eraill yn ymwneud â phrofiad o'r safle a'r diwylliant lleol a dehongliad o'r effaith a gaiff ar bob un o'r synhwyrâu.

Mae isadrannau canlynol y ddogfen yn nodi amrediad o destunau allweddol i'w hystyried yn ystod y broses ddadansoddi. Fe'u trefnir mewn pedwar categori a ddangosir yn Ffigwr 5:

Ffig 5. Y pedwar categori ar gyfer dadansoddi safle

1 Diwylliant a Chymuned	2 Tirwedd	3 Symud a Seilwaith	4 Ffurf Adeiledig
– Lleoliad y safle – Cyd-destun cynllunio – Y defnydd o'r tir a'r adeiladau amgylchynol – Adeiledd y gymdogaeth – Ymgynghori ac ymgysylltu – Economeg gymdeithasol – Dadansoddiad o'r farchnad	– Topograffi – Seilwaith gwyrdd a glas – Ecoleg – Cyflwr y ddaear – Microhinsawdd	– Hierarchaeth ffyrdd a mynediad – Trafnidiaeth gyhoeddus – Cyfleustodau a seilwaith	– Ffurf drefol – Hanes ac archaeoleg – Graddfa, uchder a dwysedd yr adeiladau – Cymeriad adeiladau a thraddodiadau adeiladu




Ar gyfer pob testun mae esboniad byr ac offer dadansoddi awgrymedig. Rhoddir mwy o wybodaeth am yr offer hyn yn Atodiad 2.

Dehongli'r dadansoddiad: Y cam pwysicaf wrth ddadansoddi yw dehongli'r holl wybodaeth a gasglwyd. Pa wahaniaeth fydd yr holl wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â'r safle a'i gyd-destun yn ei wneud i'r cynnig?

Bydd cyfres o gwestiynau 'Pa wahaniaeth?' ar gyfer pob testun yn ysgogi'r dehongliad hwn fel y gall lywio'r dyluniad yn ddefnyddiol. Gall y cwestiynau hyn fod yn werthfawr fel prociau ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio, ac ar gyfer paratoi ac asesu datganiad dylunio a mynediad.

Coladu a chrynhoi'r casgliadau: Mae cyfres o gynlluniau yn ffordd ddefnyddiol o grynhoi'r holl wybodaeth a gasglwyd ac a ddehonglwyd ynglŷn â'r safle a'r cyd-destun. Rhoddir cynlluniau enghreifftiol yn yr astudiaethau achos canlynol.

Darllen ychwanegol: Drwy'r holl ran hon, mae cyfeiriadau 'Darllen ychwanegol' yn pwyntio at ganllawiau, polisi a chyhoeddiadau eraill sy'n darparu mwy o wybodaeth. Darperir yr amcanion dylunio da perthnasol, fel y'u disgrifir yn *TAN 12: Dylunio*, hefyd i gynorthwyo gyda chyfeirnod i'r amcanion yn y broses ddylunio a'r datganiad dylunio a mynediad. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol bod polisi a chyfarwyddyd newydd yn cael eu cynhyrchu'n rheolaidd, a dylai'r timau prosiect sicrhau eu bod yn gweithio gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.



Allwedd: Amcanion dylunio da TAN 12

- M Mynediad
- C Cymeriad
- DC Diogelwch Cymunedol
- CA Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- S Symud



Astudiaethau Achos: Mae tair astudiaeth achos wedi eu paratoi fel enghreifftiau o sut i gynnal a chyflwyno'r dadansoddiad. Maent wedi eu torri i lawr yn ôl y pedwar categori a chânt eu cyflwyno ar ddiwedd pob isadran. Mae'r tair astudiaeth achos yn seiliedig ar safleoedd enghreifftiol o wahanol fathau a graddfeydd. Mae natur yr astudiaethau achos fel a ganlyn:



Astudiaeth Achos 1

Gwledig, cyrion pentref - safle wrth ymyl anheddiad ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig



Astudiaeth Achos 2

Mewnlenni trefol - safle a leolir yn agos i ganol tref ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig



Astudiaeth Achos 3

Plot canol tref - safle trefol ar gyfer adeilad cyhoeddus a man cyhoeddus



Allwedd: Lleoliad y safle



2.1

Diwylliant a Chymuned

2.1a

Lleoliad y safle

Mapiwch leoliad y safle mewn perthynas â'r anheddiad/aneddiadau agosaf a lleoedd nodedig eraill.

Pa wahaniaeth?

- 1 A ydyw'r safle yn wledig neu'n drefol ei natur a sut fydd y math o ddatblygiad yn ymateb i hyn?
- 2 Os yw'r safle'n un preswyl, sut fydd pobl yn teithio i'r gwaith, i'r ysgol ac i gyfleusterau allweddol eraill? Ydy'r rhain o fewn pellter cerdded/beicio, neu a fyddai angen taith mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu a fyddai angen cyfleusterau ychwanegol o fewn y datblygiad?
- 3 Os yw'r safle'n un dibreswyl neu ddefnydd cymysg, beth yw'r dalgylch disgwyledig? O ble bydd pobl yn teithio i gyrraedd yno?
- 4 A ydyw'r safle'n agos i leoedd o bwys fel parciau, lleoliadau diwylliannol, lleoliadau hamdden neu fusnes ac a ydyw'n werth cysylltu â nhw?

Offer:

Map lleoliad, GIS, model trafndiaeth, CDLI

Rhagor o Ddarllen:

- TAN 12: Dylunio   
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 3
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud12-13



2.1b

Cyd-destun cynllunio

Adolygwch y polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol, cynlluniau cyfyngiadau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) lleol, a hanes cynllunio'r safle.

Pa wahaniaeth?

- 1 Sut mae'r dynodiadau defnydd tir ar gyfer y safle a'r cwmpassoedd yn y CDLI yn dylanwadu ar y cynigion ar gyfer y safle?
- 2 Sut fydd polisiau neu ganllawiau allweddol yn cael ystyriaeth?
- 3 A ydyw hanes cynllunio'r safle yn dangos defnyddiau neu ffurf/graddfa/cydgasglu a allai fod, neu na allai fod, yn briodol ar gyfer y safle?

Offer:

Hanes cynllunio, crynodeb o'r polisi cynllunio perthnasol, dynodiadau map

Darllen ychwanegol:

- Polisi Cynllunio Cymru
- Nodiadau Cyngor Technegol
- Cynllun Datblygu Lleol



2.1c

Y defnydd o'r tir a'r adeiladau amgylchynol

Bydd adolygiad o swyddogaethau adeiladau a thir o gwmpas y safle yn llywio defnyddiau priodol ar gyfer y safle a'r ffordd orau o drefnu'r defnyddiau hyn er mwyn bod yn gymydog da. Gallai rhai defnyddiau cyfagos presennol gynhyrchu elfennau allanol negyddol fel sŵn neu arogleuon, ac efallai bydd angen sefydlu parthau clustogi neu ymatebion dylunio priodol. Mewn rhai achosion bydd angen ystyried pa ddefnyddiau yn y dyfodol a ragwelir ble disgwylir gweld datblygu ychwanegol.

Pa wahaniaeth?

- 1 Pa ddefnyddiau sy'n briodol ar gyfer y safle o ystyried cyd-destun y defnyddiau amgylchynol?
- 2 A ydyw'r defnyddiau tir amgylchynol yn creu unrhyw gyfyngiadau sy'n cwtogi ar ddatblygiad y safle e.e. sŵn, arogl, neu breifatwydd? Pa barthau clustogi neu ymatebion dylunio fydd eu hangen? Sut caiff y rhain eu trin i ychwanegu gwerth at y dyluniad?

Offer:

Cynllun defnydd tir, cynllun lliniaru/parthau clustogi

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: *Dylunio*, para 4.8 
- *Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy*, tud23
- *Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl*, tud27
- *Urban Design Compendium*, tud24

**2.1ch****Adeiledd y gymdogaeth**

Bydd map o'r cyfleusterau o fewn pellter cerdded o bump a deng munud yn helpu i nodi sut fydd y datblygiad yn y dyfodol yn dwyn perthynas ag adeiledd presennol y gymdogaeth, a pha ddefnyddiau newydd allai fod eu hangen.

Pa wahaniaeth?

- 1 A fydd y datblygiad yn dod yn rhan o gymdogaeth bresennol ac, os felly, sut fydd yn helpu i atgyfnerthu'r gymdogaeth? Pwy fydd y datblygiad yn y dyfodol yn ei wasanaethu?
- 2 A oes prinder cyfleusterau penodol yn yr ardal y gellid eu lleoli ar y safle?
- 3 A allai pobl gerdded neu feicio i gyfleusterau, a sut fydd y llwybrau hyn yn cael eu hintegreiddio?

Offer:

Map o gyrchfannau, map isocron

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio **C** **S**
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud27
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiynau 2 a 6
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud12-13



2.1d

Ymgynghori ac ymgysylltu

Y deiliaid presennol yw'r rhai sy'n adnabod lle orau a bydd ymgysylltu a gynlluniwyd yn dda yn caniatáu i'r tîm dylunio roi ystyriaeth i'r wybodaeth hon, ynghyd â datblygu ymdeimlad o berchenogaeth leol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyflwyno darpariaethau cyn ymgeisio a fydd yn gosod dyletswydd ar ymgeiswyr i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda'r gymuned, a gydag ymgynghoreion statudol ar gyfer datblygiadau mawrion. Dylid cyflwyno'r dull o ymgysylltu, y wybodaeth a gesglir, a sut mae'r wybodaeth wedi cael ei defnyddio.

Pa wahaniaeth?

- 1 Beth fydd yn newid o ganlyniad i'r wybodaeth a gasgloch drwy ymgynghori?
- 2 Sut fydd ymgysylltu ychwanegol yn cael ei ymgyfuno â rhychwant oes y prosiect, a pha ddulliau a fabwysiedir i gynnwys pob rhan o'r gymuned?

Offer:

Cyfarfodydd/digwyddiadau ymgysylltu, grwpiau diddordeb lleol, grwpiau mynediad, swyddog dylunio i atal troseddu, cynlluniau pentref, adborth o ddigwyddiadau blaenorol, Llunio Fy Nhref

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, para 3.4    
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud22
- Urban Design Compendium, tud20
- Llunio Fy Nhref



2.1dd

Economeg gymdeithasol

Bydd nodweddion y boblogaeth leol yn dylanwadu ar sut caiff lleoedd eu defnyddio. Er enghraifft, bydd proffil oedran, ystadegau perchenogaeth ceir, a chymysgedd ethnig yr ardal yn dylanwadu ar sut caiff mannau cyhoeddus, llwybrau troed ac adeiladau cyhoeddus eu defnyddio. Gallai enghreifftiau mynych o drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ddylanwadu ar ddyluniad adeiladau a mannau agored.

Pa wahaniaeth?

- 1 Pa wahaniaeth (os o gwbl) fydd y ddemograffeg leol yn ei wneud i'r datblygiad arfaethedig?
- 2 A oes unrhyw nodweddion unigryw o'r diwylliant lleol y gellid cyfeirio atynt yn y datblygiad arfaethedig?
- 3 Beth yw'r angen lleol am dai, a pha gyfleusterau allai fod yn briodol ar gyfer yr ardal?

Offer:

Dadansoddi ystadegol, ymgynghori, CDLI, strategaeth gymunedol

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio   
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud13, tud26
- Urban Design Compendium, tud20



2.1e

Dadansoddiad o'r farchnad

Bydd asesiad o'r farchnad eiddo leol yn helpu i nodi math a maint y datblygiad sy'n briodol ar gyfer y safle. Bydd hyn yn cynnwys math, maint a daliadaeth unrhyw ddatblygiad preswyl a/neu'r capasiti i gynnwys defnyddiau masnachol, cymunedol, cyflogaeth ac eraill. Gall y CDLI fod yn ddefnyddiol hefyd wrth bennu'r anghenion lleol. Bydd y cymysgedd o ddefnyddiau a gynhwysir ar y safle yn helpu i siapio ei ddyluniad.

Pa wahaniaeth?

- 1 Sawl uned a faint o arwynebedd llawr y gellir eu cynnwys ar y safle?
- 2 Pa gymysgedd o ddefnyddiau y gellir eu cynnwys ar y safle, a sut gellir defnyddio'r rhain i greu ymdeimlad da o le?
- 3 Sut fydd y weledigaeth a'r dyluniad yn ymateb i'r farchnad darged ar gyfer y datblygiad?

Offer:

Adroddiad ar y farchnad eiddo leol


Darllen ychwanegol:

- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiynau 2 a 4
- Urban Design Compendium, tud30

Diwylliant a Chymuned Astudiaeth Achos 1 – Gwledig, cyrion pentref




- 1 Mae'r safle'n agos at dref gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau.



- 2 Gellir cerdded i'r cyfleusterau lleol, yn cynnwys ysgol gynradd, mewn 10 munud.

- > Mae'n hysbys bod prinder cyfleusterau chwarae yn y pentref
- > Lleoliad da ar gyfer tai
- > Gallai'r safle ddarparu mannau agored a chyfleusterau chwarae tra angenrheidiol a fyddai'n fuddiol i'r gymuned ehangach




- 3 Mae mapiau hanesyddol yn dangos bod yr ardal yn enwog am ei pherllannau
- > Cyfle i gynnwys perllan yn y datblygiad i gryfhau'r ymdeimlad o le

Diwylliant a Chymuned Astudiaeth Achos 2 – Trefol, safle mewnlenni




- 1 Safle canolog.
 - 2 Yn agos iawn i siopau, gwasanaethau, gwaith a pharciau.
 - 3 Wedi ei amgylchynu gan ddatblygiadau preswyl i'r gogledd, i'r de a'r gorllewin.
- > Yn addas ar gyfer defnydd preswyl a gefnogir gan bolisi cynllunio lleol



Mae i ymylon y datblygiad hunaniaeth amrywiol:

- 4 Strydoedd maestrefol i'r gogledd.
 - 5 Stad dai ar ôl rhyfel i'r de-orllewin.
 - 6 Fflatiau dwysedd uchel diweddar ar safleoedd mewnlenni i'r de.
 - 7 Defnydd cymysg a maes parcio cyhoeddus i'r gogledd-ddwyrain.
- > Mae'r cwmpasoedd yn dameidiog a heb gymeriad unffurf. Mae angen i'r datblygiad sefydlu ei hunaniaeth ei hun.

Diwylliant a Chymuned **Astudiaeth Achos 3 – Plot canol tref**



Safle canol tref

- 1 Wrth groesffordd stryd siopa...
 - 2 ...Ardal o adeiladau dinesig a chymunedol.
 - 3 Adeilad diwylliannol pwysig a safle man ymgasglu hanesyddol.
- > Lleoliad rhagorol ar gyfer cyfleuster cymunedol a sgwâr cyhoeddus



2.2

Tirwedd

2.2a

Topograffi

Plotiwch y cyfuchliniau a thynnwch drychiadau o'r safle i nodi cymeriad topograffigol yr ardal (h.y. a ydyw'n wastad, ar osgo, yn fynyddig yn bennaf) ac amlygwch unrhyw fannau sy'n arbennig o serth.

Pa wahaniaeth?

- 1 Sut mae'r safle'n dwyn perthynas â, ac yn gweithredu o fewn, y dirwedd ehangach, yn weledol ac yn ffisegol? A ydyw'r safle'n amlwg yn weledol neu wedi ei ynysu oddi wrth yr ardal ehangach?
- 2 A fyddai teithiau i mewn ac allan o'r safle yn cynnwys goledau serth ac, os felly, sut gellid goresgyn hyn?
- 3 A ydyw'r topograffi amgylchynol yn creu unrhyw olygfeydd amlwg o'r safle y dylid eu cadw neu fanteisio arnynt?
- 4 Sut mae'r cyfuchliniau'n cael eu cyfeiriadu? Yn gyffredinol dylai strydoedd ac adeiladau gael eu lleoli naill ai'n gyfochrog i oled neu ar ongl sgwâr iddo.
- 5 A oes angen cynnwys unrhyw nodweddion penodol, fel ceunentydd, pantiau, twmpathau neu fryncynau?
- 6 A oes rhannau o'r safle sy'n rhy serth i'w datblygu? A fyddai'r mannau hyn yn addas ar gyfer defnyddiau eraill e.e. ecoleg, hamdden?
- 7 A ydyw'n briodol creu gwrthgloddiau i newid y topograffi neu a ellid cadw ffurf fwy naturiol?
- 8 Os bwriedir creu gwrthgloddiau, a ellir cael cydbwysedd o ran maint y torri a'r llenwi?
- 9 A ellid cyflawni mynediad gwastad i'r mynedfeydd a sut fydd hyn yn dylanwadu ar gynllun y safle?
- 10 A fydd yn rhaid rheoli'r newid mewn lefel o fewn yr adeilad(au)?

Offer:

Map cyfuchliniau, trychiadau, ffotograffau, model ffisegol

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, paras 4.7, 4.8, 5.5   
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud18, tud107
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud7, tud13, tud26
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 6
- Urban Design Compendium, tud25-26, tud58

**Ffig 6.**

Gall yr olygfa o safle a roddir gan y topograffi ychwanegu gwerth at ddatblygiad os manteisir arni (c) CDC





2.2b

Seilwaith gwyrdd a glas

Nodwch a phlotiwch y nodweddion ffisegol sylweddol, yn cynnwys hydroedd presennol o ddŵr, afonydd, nentydd, corsydd, llynnoedd, pyllau, coetir, caeau, gwrychoedd a choed, ynghyd â'u parth gwarchod gwreiddiau, o fewn ac o gwmpas y safle. Nodwch unrhyw orchmynion cadw coed a phenderfynwch a oes perygl o lifogydd ar y safle.

Pa wahaniaeth?

- 1 A oes nodweddion yn y dirwedd ehangach neu ar hyd ffiniau'r safle y gellid neu y dylid eu hestyn a/neu eu cynnwys yn nyluniad y safle? Sut ddylai'r datblygiad arfaethedig ddwyn perthynas â'r nodweddion hyn, yn cynnwys triniaethau i ymylon tirwedd ar gyfer ffiniau'r safle?
- 2 Pa nodweddion ar y safle y dylid eu cadw? Pa gyfleoedd sydd ar gael i wella'r seilwaith gwyrdd? Sut gallant gael eu cynnwys i ddarparu'r gwerth amwynder ac ecolegol gorau, yn cynnwys darparu cysylltedd o ran asedau seilwaith gwyrdd presennol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt (gweler hefyd 2.2c. Ecoleg)?
- 3 Sut gellid cynnwys draenio dŵr wyneb, yn cynnwys systemau draenio trefol cynaliadwy (SDTC), ac unrhyw fesurau lliniaru llifogydd, mewn modd cadarnhaol?
- 4 Beth yw'r gofynion am fannau agored ar gyfer y datblygiad arfaethedig, a sut gellid ymaddasu orau i hyn mewn perthynas â'r nodweddion presennol ar y safle?

Offer:

Map nodweddion, arolwg coed, Mapiau Cyngor Datblygiad (i'w defnyddio ar y cyd â TAN 15)

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, paras 4.7, 4.8, 4.11, 4.14  
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud18, tud22, tud24, tud25
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud7, tud13, tud25
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiynau 5 a 6
- Urban Design Compendium, tud25-26
- TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd
- TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed

**Ffig 7.**

Mae cadw coed presennol yn darparu tirwedd
aeddled ar gyfer y datblygiad (c) CDC





2.2c

Ecoleg

Nodwch nodweddion y safle sydd â gwerth ecolegol a'r cynefinoedd y mae'n rhaid eu gwarchod, ynghyd â chyfleoedd i wella gwerth ecolegol y safle.

Pa wahaniaeth?

- 1 Sut fydd nodweddion tirwedd a chynefinoedd gwarchodedig fel coridorau bywyd gwyllt yn cael eu cynnwys a sut fyddwch yn mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng hygyrchedd a chadwraeth?
- 2 Sut gellir gwella a mwyhau gwerth bioamrywiaeth y safle?
- 3 Os bydd tir o werth ecolegol yn cael ei golli, sut fydd mesurau lliniaru'n cael eu cynnwys?
- 4 Sut fydd y datblygiad arfaethedig yn dwyn perthynas ag unrhyw safleoedd gwarchodedig neu dirweddau dynodedig?

Offer:

Map o'r nodweddion a'r cyfyngiadau, arolwg o'r cynefin, adroddiad ar rywogaethau gwarchodedig, arfarniad ecolegol, astudiaethau AEA

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, paras 4.7, 4.11 
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud18, tud25
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud7, tud25
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 6
- TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur

**2.2ch****Cyflwr y ddaear**

Nodwch a phlotiwch y mannau yr effeithir arnynt gan halogiad, adeileddau dan ddaear, siafftiau mwynglawdd a chyflyrau daear eraill a fydd yn effeithio ar hyfywedd ariannol neu adeileddol datblygiadau yn y dyfodol. Dangoswch ddaeareg waelodol y safle. Dylid cynnal astudiaethau arbenigol lle bo angen.

Pa wahaniaeth?

- 1 A oes ardaloedd na ellir adeiladu arnynt neu sy'n addas ar gyfer defnyddiau tir penodol yn unig? A yw'r ardaloedd hyn yn addas ar gyfer defnyddiau fel mannau agored neu ar gyfer gwella cynefin?
- 2 A fydd angen gwaith ar y ddaear neu sylfeini, a sut fydd ffurf y tir yn newid o ganlyniad?

Offer:

Cynlluniau hanesyddol, arolwg ymchwilio'r ddaear, adroddiadau daearegol/geomorffolegol/ hydrolegol/ hydroddaearegol

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, para 4.11 **CA**
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud22
- Polisi Cynllunio Cymru, 13.5, 13.7, 13.9



2.2d

Microhinsawdd

Ystyriwch yr elfennau allweddol sy'n effeithio ar y microhinsawdd, fel cyfeiriad prifwyntoedd a llwybr yr haul ar draws y safle. Gall yr adeileddau, planhigion a thopograffi presennol effeithio ar y microhinsawdd. Gall deall y microhinsawdd lywio strategaeth gynaliadwydd integredig.

Pa wahaniaeth?


- 1 A oes unrhyw nodweddion tirwedd neu adeiledig o bwys yn amgylchynu'r safle a fyddai'n effeithio ar y microhinsawdd, fel darparu lloches, creu twnelau gwynt neu daflu cysgod?
- 2 Sut fydd cynllun arfaethedig y safle a'r ffurfiau adeiledig yn manteisio ar ynni haul naturiol ond yn osgoi gorboethi?
- 3 Sut fydd y mannau allanol yn cael eu cyfeiriadu i ddarparu amodau hinsawdd cyffyrddus?

Offer

Model 3D, cynllun dadansoddi hinsawdd, trychiadau o'r safle, modelu cyfrifiadurol

Darllen ychwanegol:


- TAN 12: Dylunio, para 4.7 
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud19, tud26
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud21
- Urban Design Compendium, tud25



1 Mae'r topograffi a'r llystyfiant presennol yn cyfyngu ar olygfeydd helaeth o'r safle.

2 Mae'r cornel gogledd-orllewinol yn weladwy o'r ffordd fawr.

- > Caiff y datblygiad ei ystyried fel rhan o'r anheddiad presennol.
- > Mae angen rhoi sylw arbennig i'r ymyl gogledd-orllewinol i sicrhau y bydd y datblygiad yn cyfannu neu'n gwella cymeriad yr anheddiad.



3 Mae'r tir yn disgyn at nant yn y de.

4 Mae llinell ddyffryn raddol yng nghanol y cae.

5 Y nant bresennol gyda pharth llifogydd a phlanhigion cysylltiedig i'r de.

6 Mae'r llinell wrych hanesyddol wedi diflannu.


- > Dylai'r llinellau adeiladau ddilyn cyfuchliniau, mae'r llinell ddyffryn yn ffurfio cyfliniad naturiol ar gyfer y stryd fawr sy'n mynd at y safle.

- > Gallai'r nant ffurfio rhan o goridor gwyrdd.

- > Gellid adfer y llinell wrych hanesyddol i wella'r mynediad i'r pentref ac annog bywyd gwyllt.



Tirwedd Astudiaeth Achos 2 – Trefol, safle mewnlenwi




- 1 Lleolir y safle yn union dan linell crib, gan ddisgyn yn raddol i gyfeiriad canol y dref.
- 2 Mae coed/coedwig sefydledig yn gwahanu'r safle oddi wrth y gymdogaeth i'r gorllewin.



- 3 Mae'r safle'n disgyn yn raddol i'r gogledd a'r dwyrain.
- 4 Golygfeydd o'r safle ar draws y maes parcio i gyfeiriad canol y dref.
- 5 Mae llinellau coetir a choed llawn dwf sefydledig ar hyd y ffin orllewinol yn cysylltu'r safle â'r ffyrdd amgylchynol i'r gogledd, i'r de ac i'r dwyrain.
- 6 Nifer o goed llawn dwf o fewn ffiniau'r safle.

- > Y potensial i gadw golygfeydd hir i gyfeiriad canol y dref a chysylltu'r safle â'r datblygiadau a'r dirwedd amgylchynol drwy goetir sefydledig.
- > Patrwm y strydoedd i ddilyn y topograffi.
- > Cadw'r coed presennol.

Tirwedd Astudiaeth Achos 3 – Plot canol tref



Lleoliad trefol - mannau gwyrdd
cyfyngedig yng nghanol y dref

- 1 Ardaloedd sydd mewn cysgod
yn bennaf.
- 2 Ardaloedd sydd yn yr haul
yn bennaf.
- 3 Cyfeiriad y prifwyntoedd.

- > Mae microhinsawdd y
safle yn ffafriol i fannau
cyhoeddus cyffyrddus.
- > Gallai'r adeilad gael budd o ynni
haul yn y gaeaf ond byddai angen
ei ddiogelu rhag gorboethi yn
yr haf.
- > Gallai gwyntoedd cryf, hyrddiog
chwythu o gwmpas corneli'r
adeilad. Dylid defnyddio modelu
gwynt i brofi'r mannau cyhoeddus
am gysur.



2.3

Symud a Seilwaith

2.3a

Hierarchaeth ffyrdd a mynediad

Platiwch y ffyrdd amgylchynol, llwybrau beiciau, llwybrau tramwy cyhoeddus, a llwybrau troed eraill, ynghyd â llinellau dymunol presennol ac ar gyfer y dyfodol. Nodwch hierarchaeth y rhwydwaith ffyrdd.

Noder: Ar gyfer llawer o ddatblygiadau mwy sylweddol byddai angen Asesiad Trafnidiaeth (AT) i ystyried materion fel effaith trafndiaeth, capasiti cyffyrdd, diogelwch ac ati. Byddai casgliadau'r AT yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r dyluniad.

Pa wahaniaeth?

- 1 A ellid gwella hygyrchedd ac eglurder yr ardal ehangach (tref, pentref, tirwedd) trwy greu llwybrau newydd, naill ai i gerbydau neu i gerddwyr a beiciau yn unig, ar draws y safle datblygu?
- 2 Os yw'r safle'n cysylltu â'r prif ffyrdd trwy ddatblygiad presennol, beth yw natur y datblygiad hwn a beth fyddai'r effaith ar y trigolion presennol? A oes dewisiadau amgen?
- 3 Ble caiff y prif bwynt mynediad i gerbydau ei leoli? A oes mynediad eilaidd? Sut caiff y llwybr mynediad i'r prif safle ei gynnwys?
- 4 A oes cyfleoedd i leoli llwybrau mynediad i gerddwyr/beiciau fel eu bod yn cyd-fynd â'r llinell ddymunol i gyrchfannau cyfagos?
- 5 A ellir cynnwys llwybrau tramwy cyhoeddus presennol neu a ydyw dargyfeirio yn ddewisol/yn ofynnol?
- 6 A ellir gwella, estyn neu greu llwybrau teithio byw?

Offer:

Map, model/efelychiad o drafndiaeth, Cynlluniau Teithio Byw awdurdodau lleol

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, para 4.13  
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud20, tud24
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud9, tud27
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiynau 1, 8 a 9
- Urban Design Compendium, tud28
- Manual for Streets, tud26-31, tud41-49
- Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 8
- TAN 18, Penodau 5 a 6
- Canllawiau Dylunio: Deddf Teithio Byw (Cymru) 2013



2.3b

Trafnidiaeth gyhoeddus

Platiwch yr arosfannau bysiau a'r gorsafoedd rheilffordd yn yr ardal.
Nodwch yr amllder a'r cyrchfannau.

Pa wahaniaeth?

- 1 A ydyw'r datblygiad arfaethedig ar raddfa a fydd yn cynnal ac yn gofyn arosfannau neu lwybrau trafndiaeth gyhoeddus newydd?
- 2 Sut fydd dwysedd y datblygiad arfaethedig yn ymateb i agosrwydd arosfannau trafndiaeth gyhoeddus?
- 3 Sut fydd llwybrau cerdded diogel, cyfleus a deniadol i arosfannau trafndiaeth gyhoeddus yn cael eu hymgyfuno â'r dyluniad?

Offer:

Map, data trafndiaeth gyhoeddus, ymgynghori gyda darparwyr trafndiaeth gyhoeddus

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, paras 4.7, 4.13, 5.9.3  
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud27
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud27
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 3
- Urban Design Compendium, tud28
- Manual for Streets, tud41, tud72-73
- Polisi Cynllunio Cymru, paras 8.1, 8.3, 8.7
- TAN 18, Pennod 7



2.3c

Cyfleustodau a seilwaith

Bydd nodi'r cyflenwadau dŵr, ynni a chyfathrebu presennol yn yr ardal, ynghyd â'r capasiti draenio dŵr wyneb a budr, yn pennu faint o ddatblygiad newydd y gellid ei gynnwys o fewn y ddarpariaeth bresennol neu'r costau sy'n gysylltiedig ag uwchraddio.

Pa wahaniaeth?


- 1 A ydyw'r capasiti presennol yn cyfyngu ar nifer yr unedau y gellir eu cynnwys ar y safle?
- 2 Os oes angen seilwaith newydd, ble mae'r lle rhesymegol i'w osod?
- 3 A ydyw'r isbwerdai neu'r cyfleustodau dan ddaear neu uwchben presennol yn atal datblygu unrhyw rannau o'r safle, a sut fydd y datblygiad arfaethedig yn mynd i'r afael â'r llwybrau hyn?
- 4 Sut gall draenio dŵr wyneb cynaliadwy gael ei gynnwys?

Offer:


Arolygon capasiti cyfleustodau, ymgysylltu â darparwyr cyfleustodau, arolwg o'r safle

Darllen ychwanegol:


- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, tud26
- Manual for Streets, tud18, tud131-132
- Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 12



- 1 Mae'r safle o fewn cyrraedd hawdd i draffordd a rhwydwaith ffyrdd ehangach.
- 2 Byddai'r rhan fwyaf o'r drafnidiaeth yn teithio tua'r gorllewin ac felly ni fyddai'n mynd drwy'r anheddiad.
- 3 Gwasanaeth bysiau presennol i'r brif dref a'r orsaf drenau.




- 4 Mae'r safle'n wynebu'r ffordd fawr.
- 5 Llwybr troed presennol i'r de-ddwyrain o'r safle.




- 6, 7, 8 Nifer o bwyntiau mynediad arfaethedig i strydoedd presennol.
 - 9 Arosfannau bysiau yn agos at y safle.
- > Dim angen gwaith sylweddol ar y seilwaith i hyrwyddo datblygu.
 - > Prif bwynt mynediad o'r gogledd, gyda chysylltiadau lleol ychwanegol (cerddwyr, beiciau a cherbydau argyfwng) i'r de-ddwyrain.

Symud a Seilwaith Astudiaeth Achos 2 – Trefol, safle mewnlenwi




- 1 Y safle'n agos at brif ffordd y dref gyda mynediad hawdd i ganol y dref a rhwydwaith ffyrdd rhanbarthol.
- 2 Gwasanaethau bysiau ar y ffyrdd i'r gogledd a'r dwyrain o'r safle.
- 3 Mae'r safle 15 munud o gerdded oddi wrth yr orsaf drenau.
- 4 Mae rhwydwaith o lwybrau troed yn rhedeg ar hyd, neu at ffin y safle.
- 5 Mae'r safle a'r cwrmpasoedd yn rhwystro i gerddwyr o'r gymdogaeth i'r de-orllewin.




- 6 Nid yw'r safle'n wynebu'r ffordd yn uniongyrchol. Mae un pwynt mynediad presennol ac un arall arfaethedig i stryd i'r gogledd.
 - 7 Trydydd mynediad arfaethedig i'r de, yn dilyn ailddatblygu arfaethedig i'r safle.
- > Cyfyngiad o ran mynediad i'r rhwydwaith ffyrdd – mynediad o stryd breswyl i'r gogledd.
 - > Llawer o bwyntiau cysylltu arfaethedig i lwybrau troed amgylchynol.
 - > Cyfle i ddefnyddio'r safle i hyrwyddo symud trwodd a gwella cysylltedd yr ystadau amgylchynol.

Symud a Seilwaith Astudiaeth Achos 3 – Plot canol tref



- 1 Strydoedd gyda mesurau tawelu trafnidiaeth i'r gogledd a'r de o'r safle.
- 2 Parcio ceir i'r dwyrain yn denu nifer fawr o ymwelwyr o gwmpas y safle.
- 3 Llinellau dymunol i gerddwyr yn croesi'r safle.



- 4 Posibilrwydd o gau'r ffordd bresennol i drafnidiaeth.
 - 5 Coridor cyfleustodau - nid oes adeiladau o fewn 3m ar y naill ochr.
- > Cyfle i greu adeilad a man cyhoeddus sy'n cynnwys llinellau dymunol.



2.4

Ffurf Adeiledig

2.4a

Ffurf drefol

Mapiwch batrwm y strydoedd, yr adeiladau a'r mannau cyhoeddus a phreifat yn yr ardal sy'n amgylchynu'r safle. Amlygwch gyfeiriadaeth yr adeiladau o gwmpas y safle.

Pa wahaniaeth?

- 1 Beth yw lleoliad y safle mewn perthynas â'r datblygiad amgylchynol (e.e. datblygiad ymyl tref, safle mewnlenni, datblygiad annibynnol)? Beth yw'r cyfleoedd i wella'r ffurf drefol bresennol?
- 2 A oes patrwm wedi ei ddiffinio'n glir o strydoedd a blociau ac a ellid/ddylid parhau â hyn ar y safle datblygu?
- 3 A ellid estyn ffyrntiadau strydoedd neu adeiladau presennol i mewn i'r safle?
- 4 Ble ddylid lleoli rhannau blaen a rhannau cefn datblygiadau newydd mewn perthynas â'r hyn sydd o gwmpas y safle yn barod er mwyn cynnal ymdeimlad clir o fannau cyhoeddus a phreifat a chreu datblygiad diogel?
- 5 Pa mor bell dylid lleoli'r datblygiad newydd oddi wrth adeiladau presennol?

Offer:

Cynllun bloc, cynllun ffigur-grwnd, cynllun cyfeiriadaeth adeiladau

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, paras 4.10, 4.14   
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud8, tud13, tud16, tud25
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiynau 6, 7 ac 11
- Urban Design Compendium, tud24
- Canllawiau dylunio lleol neu CCA

2.4b

Hanes ac archaeoleg

Mae pob safle wedi ei wreiddio yn hanes ei gymdogaeth a dylai datblygiad safle ystyried hyn a, ble bo'n briodol, adlewyrchu'r hanes hwn. Gallai hyn fod ar amryw ffurfiau fel cadw nodweddion hanesyddol ar y safle neu adlewyrchu llinellau adeiladau hanesyddol. Bydd hyn yn helpu i roi ymdeimlad o le a hunaniaeth i'r datblygiad, bydd yn parhau â naratif y safle, ac yn ychwanegu gwerth. Efallai bydd gan y safle bwysigrwydd archaeolegol hefyd sydd angen ei ddiogelu a'i ddehongli.

Pa wahaniaeth?

- 1 Sut mae'r ardal wedi datblygu gydag amser? A oes patrymau strydoedd neu adeiladau a oedd gynt yn gyffredin ac y gellir eu hadfer i wella eglurder a chysylltedd y dref gyfan?
- 2 A oes unrhyw nodweddion ffisegol neu ddiwylliannol hanesyddol a oedd yn nodweddu'r ardal ac a all helpu i sefydlu hunaniaeth ar gyfer y dyfodol?
- 3 Pa stori all datblygu'r safle ei hadrodd ynglŷn â hanes yr ardal?
- 4 Sut mae unrhyw nodweddion archaeolegol yn dylanwadu ar leoliad a chynllun y datblygiad arfaethedig?
- 5 Pa nodweddion hanesyddol gellid/dylid eu cadw ar y safle a sut fyddant yn cael eu hintegreiddio?
- 6 A oes angen sgiliau a/neu wybodaeth arbenigol i ddeall a dehongli hanes y safle'n well?

Offer:

Rhestr o'r nodweddion hanesyddol, llinell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol, mapiau, lluniau a phaentiadau hanesyddol, ymgynghori â Cadw

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio, para 4.8 C S
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud9, tud27
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 5
- Deall Cymeriad, Cadw



2.4c

Graddfa, uchder a dwysedd adeiladau

Nodwch raddfa, uchder a dwysedd y datblygiadau amgylchynol i lywio'r paramedrau ar gyfer datblygu yn y dyfodol a maint y datblygiad y gellir ei gynnwys. Mapiwch yr adeiladau neu'r tirnodau allweddol y gellir eu gweld o'r safle.

Pa wahaniaeth?

- 1 Beth yw'r paramedrau priodol ar gyfer graddfa, uchder a dwysedd y safle? A ddylent fod yn debyg i'r amgylchoedd neu a oes potensial/gwerth mewn gwyrho?
- 2 A ddylai uchder neu ddwysedd y datblygiad amrywio mewn ymateb i'r datblygiadau amgylchynol, topograffi'r safle neu'r cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus ble gallai hyn fod yn briodol ar gyfer lleoli datblygiad dwysedd uwch?
- 3 A oes golygfeydd o dirnodau y dylid eu cadw?
- 4 A ellid defnyddio'r tirnodau i saernio cynllun y safle?

Offer:

Cyfrifiadau dwysedd, cynllun uchder adeiladau, trychiadau o'r safle a'r cyd-destun, gweddoluniau stryd

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio **C**
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud10
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 8

Ffig 8.

Roedd graddfa a chymeriad yr anheddau presennol (ar y chwith) yn sail i ddyluniad yr unedau preswyl newydd (ar y dde) yn Icon, Gwlad yr Haf (c) CDC

Mewn lleoliadau eraill, gallai fod yn briodol creu graddfa sy'n wahanol i'r cyd-destun



**2.4ch****Cymeriad adeiladau a thraddodiadau adeiladu**

Dylid dadansoddi a dehongli'r ffurfiau adeiladau cyffredin, cymeriad pensaernïol, triniaethau ffiniau a deunyddiau adeiladu. Gellid nodi deunyddiau adeiladu lleol a ffurfiau adeiladu trechol er mwyn dylanwadu ar ddyluniad adeiladau yn y dyfodol.

Pa wahaniaeth?


- 1 A oes agweddau ar gymeriad yr adeiladau lleol a allai lywio'r datblygiad arfaethedig? Sut fyddant yn cael eu defnyddio?
- 2 A oes palet cryf iawn o ddeunyddiau lleol? A ydyw'n berthnasol o hyd i ddefnyddio'r deunyddiau hyn heddiw (e.e. a ydynt ar gael yn lleol ac a allant gyflawni'r safonau perfformiad sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad arfaethedig?)
- 3 Sut caiff y weledigaeth ar gyfer y datblygiad ei dehongli mewn perthynas â chyd-destun yr adeiladau lleol?
- 4 Beth fyddai'n ddehongliad cyfoes o ymagweddau traddodiadol at gymeriad lleol?

Offer:


Ffotograffiaeth, gweddlluniau adeiladau/strydoedd, canllawiau lleol

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dynunio, paras 4.8, 4.9 
- Canllaw Dylunio Model i Gymru, Datblygiadau Preswyl, tud25
- Adeiladu am Oes 12 Cymru, Cwestiwn 5
- Urban Design Compendium, tud24



- 1 Y safle wedi ei leoli wrth ymyl anheddiad.
 - 2 Lleolir y safle mewn 'bwlch gwyrdd' sy'n gwahanu'r anheddiad oddi wrth y brif dref.
- > Dylid lleddfu effaith y datblygiad ar y gwahaniad.




- 3 Ar hyn o bryd ymddengys bod yr anheddiad yn terfynu wrth y tŷ olaf ar hyd y ffordd fawr.
 - 4 Ymyl anneniadol i'r anheddiad a ffurfiwyd gan gefnau tai.
 - 5 Gerddi preifat â'u cefnau at y safle gan adael y ffiniau cefn yn fregus.
 - 6 Man gwyrdd dymunol a mynedfa anffurfiol i'r anheddiad o'r de.
 - 7 Llain werdd a gedwir.
- > Lleihau'r effaith ar y bwlch gwyrdd trwy beidio ag ymwthio allan y tu hwnt i'r tŷ olaf.
- > Cyflwyno ffryntiadau datblygiad i greu mynediad deniadol i'r pentref o'r ffordd fawr
- > Symud y datblygiad yn ôl i gadw preifatrwydd y gerddi presennol
- > Diogelu cymeriad presennol y mynediad deheuol trwy osod y datblygiad yn ôl o'r ffordd
- > Estyn y man gwyrdd a gedwir i greu sgwâr bach

Ffurf adeiledig Astudiaeth Achos 2 – Trefol, safle mewnlenwi



Y datblygiad amgylchynol o gymeriad, dwysedd, uchder, màs a cyfeiriadaeth amrywiol. Mae angen amrywiaeth o ymatebion i ddatblygu ymylon y safle:


- 1 Anheddau un a dau lawr gyda gerddi preifat: Symud y datblygiad yn ôl i barchu preifatrwydd y trigolion presennol.
 - 2 Blociau o fflatiau pedwar i bump llawr: Symud y datblygiad yn ôl i osgoi edrych dros eiddo arall a thaflu cysgod.
 - 3 Ymyl coetir: Lleoli cartrefi i edrych dros ac ymestyn i'r coetiroedd a'u gwneud yn rhan o'r datblygiad.
 - 4 Maes parcio cyhoeddus ar lethr disgynol: Cyfeiriadu'r adeiladau er mwyn creu golygfeydd drwy ganol y dref.
- > Cyfle i gyflwyno man trionglog yng nghanol y safle i gysylltu ymylon o amrywiol gymeriad a newid y cyfliniad.




Amrywiaeth eang o arddulliau pensaernïol a defnydd o ddeunyddiau yn yr ardal

- > Cyfle i'r datblygiad newydd greu ei hunaniaeth ei hun

Ffurf adeiledig Astudiaeth Achos 3 – Plot canol tref



- 1 Graen trefol da ar hyd y ffordd ddwyrain-orllewin i'r safle.
- 2 Adeiladau mawr unigol yn union o gwmpas y safle.
- 3 Llinell adeiladau hanesyddol.



Mae'r adeiladau o gwmpas y safle yn amrywio mewn uchder – adeiladau pedwar i bum llawr yn amgylchynu'r sgwâr (porffor tywyll), adeiladau llai, is, yn y strydoedd sy'n arwain at y safle (porffor golau).

- 4 Byddai adeiladau yn y dyfodol yn cuddio'r golygfeydd hir o'r prif lwybrau dynesu i gerddwyr.
 - 5 Ffryntiadau deniadol i'r gogledd a'r gorllewin.
 - 6 Cefnau adeiladau a ffasadau plaen/caeedig i'r de a'r dwyrain.
- > Dylai'r adeiladau ymateb i raddfa a graen y stryd ddwyrain-orllewin a bod o uchder a maint digonol er mwyn medru dal eu tir yn erbyn yr adeiladau mawr, ffurfiol sy'n amgylchynu'r sgwâr.
- > Dylai'r adeilad ymateb i'r golygfeydd hir o'r prif lwybrau cerddwyr

Adran 3



3

Hysbysu dylunio

3.1

Deall y casgliadau

Mae asesu holl agweddau perthnasol y safle dan y pedwar prif gategori a amlinellir yn yr adran flaenorol yn darparu'r cyfle i ystyried a deall y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a gyflwynir gan y safle. Nawr mae'n bwysig ystyried yr holl agweddau gyda'i gilydd er mwyn nodi'r prif ddylanwadau ar y broses ddylunio.

Ynghyd â mapio'r dadansoddiad, mae'n bwysig ystyried beth sydd wedi eich ysbrydoli ynglŷn â'r safle a'i gyd-destun.

Yn gyffredinol, bydd tair neu bedair thema allweddol yn ymgodi o'r broses ddadansoddi a fydd yn ysgogi'r dyluniad. Ni all y canllaw hwn ddeddfu ar beth fyddai'r themâu hyn.

3.2

Diffinio'r ardal ddatblygu

Ar y cam hwn, bydd yn bosibl cael syniad cliriach am y tir y gellir ei ddatblygu ar y safle. Bydd yn rhaid i'r tir datblygadwy ystyried y cyfyngiadau a hefyd unrhyw fannau agored, tirlunio adeileddol a gofynion draenio. Unwaith y bydd y tir datblygu wedi cael ei bennu, gellir ailasesu maint y datblygiad arfaethedig ar sail y dwysedd datblygu.

3.3

Mireinio'r weledigaeth

Mae'r weledigaeth yn ymwneud â pha fath o le sy'n cael ei greu, ei briodweddau a'i gymeriad, a dylai hyn ymateb i'r safle ei hun. Efallai bydd y broses ddadansoddi wedi darparu ysbrydoliaeth ar gyfer ymagwedd newydd at y dyluniad neu'r nodweddion a amlygir ar y safle neu ei gyd-destun. Dylai hon lywio natur y datblygiad ac, o ganlyniad, bydd angen diwygio neu fireinio'r weledigaeth.





3.4

Rhoi cysyniadau a syniadau ar brawf

Gellir defnyddio'r cynlluniau dadansoddi fel sail i ddatblygu cysyniadau a syniadau am sut i gyflawni'r briff ac ymateb i'r weledigaeth ar ffurf cynllun. Mae'n bosibl y bydd rhai o gasgliadau'r dadansoddiad yn gwrthdaro â'i gilydd neu ag egwyddorion dylunio arfer da, er enghraifft gallai cyfeiriadu er mwyn cael ynni haul goddefol wrthdaro â thopograffi'r safle neu leoliad adeiladau presennol, felly bydd angen rhoi gwahanol opsiynau ar brawf i nodi pa elfen sy'n flaenoriaeth.

Ffig 9.

Ar ôl dadansoddi'r safle, modelu a chynnal profion amgylcheddol, a roddodd sylw i lawer o agweddau, ac yn unol â'r briff ar gyfer yr adeilad, penderfynwyd cyfeiriadu Eco -Ffatri Baglan fel y byddai'n manteisio i'r eithaf ar olau dydd ac effeithlonrwydd ynni yn hytrach na chydymffurfio â'r graen trefol presennol (c) Uned Ymchwil Dylunio, Prifysgol Caerdydd





3.5

Fframwaith dylunio safle

Mae paratoi fframwaith dylunio yn gam defnyddiol ar ôl dadansoddi'r safle gan ei fod yn dechrau cyfuno canlyniadau dadansoddi'r cyd-destun a'r safle â gweledigaeth a briff y prosiect. Bydd y broses o adeiladu'r fframwaith yn darparu cyfle i brofi achos busnes y prosiect yn erbyn yr hyn sy'n ymarferol ac yn briodol ar y safle, a gallai hyn arwain at fireinio pellach ar y briff.

Hidiwch y Bwlch!

Gwnewch yn siŵr bod cysylltiad clir rhwng y dadansoddiad a'r cynigion dylunio.

Mae'r fframwaith yn sefydlu'r adeiledd ar gyfer y dyluniad. Mewn ymateb i'r dadansoddiad a'r weledigaeth, bydd yn nodi agweddau fel y canlynol:

- Pwyntiau mynediad
- Hierarchaeth symudiadau
- Dosbarthiad defnyddiau
- Amrywiaeth o ran dwysedd
- Lleoedd gwag o bwys
- Tirlunio strwythurol
- Lleoliadau mynedfeydd a ffryntiadau pwysig
- Cyfeiriadaeth adeiladau

Cyflwynir cynllun fframwaith ar gyfer pob un o'r astudiaethau achos ar y tudalennau canlynol ac mae'n dangos sut gellir ymdrin â hyn.

Astudiaeth Achos 1 – Gwledig, cyrion pentref Fframwaith



- 1 Mae'r berllan gymunedol a'r maes chwarae yn cyflwyno cyfleusterau mannau agored tra angenrheidiol i'r anheddiad
- 2 Cartrefi newydd yn cydymffurfio â'r datblygiad presennol - y bwlch gwyrdd wedi ei gadw
- 3 Mae'r cartrefi'n edrych dros fannau agored ac yn ffurfio ymyl deniadol i'r anheddiad
- 4 Cartrefi newydd â'u cefnau at y gerddi cefn presennol - gan gadw preifatrwydd
- 5 Y tai wedi eu gosod nôl oddi wrth goridor yr afon a'r parth llifogydd
- 6 Cartrefi newydd wedi eu cyfeiriadu er mwyn diffinio a gwella'r sgwâr gwyrdd
- 7 Mae'r prif fynediad i gerbydau o'r ffordd fawr yn dilyn goleddf yn y topograffi
- 8 Mynediad eilaidd ar gyfer argyfyngau yn unig
- 9 Mae'r llwybr troed yn cysylltu â'r stryd a'r llwybr troed lleol

Astudiaeth Achos 2 – Trefol, safle mewnlenwi Fframwaith




- 1 Y strydoedd a'r llwybrau troed newydd yn ymgysgu i ddilyn y cyfuchliniau, ac i greu llwybrau cyfleus ac eglur sy'n cysylltu'r safle â'r datblygiad amgylchynol, ac felly gwella'r mynediad i ganol y dref ar gyfer y trigolion yn yr ystadau presennol i'r de-orllewin
- 2 Sgwâr bach ar groesffordd i wella'r ymdeimlad o le

Lleolir y cartrefi fel eu bod yn edrych dros lwybrau ac yn briodol mewn graddfa a chymeriad i'r datblygiad ar hyd ymylon y safle:

- 3 Tai teras i'r de yn sythlin i flociau uchel o fflatiau

- 4 Tai teras â'u cefnau at erddi cefn presennol
- 5 Blociau o fflatiau i'r dwyrain wedi eu gosod i gadw'r golygfeydd trwy ganol y dref
- 6 Cartrefi mwy sylweddol yn cael eu cyfeiriadu at y coetiroedd, i gael budd o'r lleoliad coetiroedd ac i wella diogelwch y llwybrau coetir
- 7 Mae'r man gwyrdd trionglog yng nghanol y safle yn cysylltu amrywiol fannau â chymeriad ar y datblygiad newydd ac yn creu ymdeimlad o le
- 8 Adeilad tirnod i gryfhau hunaniaeth y datblygiad ymhellach

Astudiaeth Achos 3 – Plot canol tref Fframwaith



Lleoliad addas ar gyfer man cyhoeddus ac adeilad gyda defnydd cyhoeddus

- 1 Lleoli'r adeilad ar ran ddwyreiniol y safle i ddilyn llinell adeiladau hanesyddol ac osgoi coridor o gyfleustodau
- 2 Lleoli'r man cyhoeddus ar ran orllewinol y safle gan fanteisio ar y microhinsawdd dymunol a'r cyfle i gau'r stryd bresennol i drafnidiaeth
- 3 Byddai llinell adeiladau letgroes yn atgyfnerthu'r llinell ddymunol i gerddwyr, ond byddai'n creu cynllun mewnol lletchwith.

Trefnu'r cynllun mewnol i gyflawni'r cyfleoedd a gyflwynu'r safle:

- a Peri i'r brif fynedfa agor at y sgwâr i ddal yr ymwelwyr sy'n mynd heibio
- b Gosod caffi ar y sgwâr
- c Cyflwyno lle i arddangosfeydd ar y stryd fawr

Y gweddlluniau'n ymateb i'r ffurf adeileddig sefydledig:

- 4 Dylai uchder yr adeilad gyfannu'r adeiladau amgylchynol.
- 5 Stryd fawr: Parhau â'r llinell adeiladau bresennol ac amgáu'r olygfa o'r Stryd Fawr.
- 6 Dylai manylion a rhythm y gweddllun gyd-fynd â stryd fawr â graen da, yn cynnwys gwahaniaethu rhwng lloriau gwaelod ac uchaf.
- 7 Y Sgwâr: Dyluniad cryf / beiddgar sy'n mynd i'r afael â graddfa'r man agored a'r adeiladau eraill o gwmpas y sgwâr.
- 8 Defnydd eang o wydr yn y ffasad de-orllewinol i helpu i fanteisio i'r eithaf ar ynni haul. Gordo ac elfennau fertigol i reoli gwres yn yr haf.
- 9 Y ffasad deheuol yn fwy amgaeedig - "rhan gefn" ddeniadol a allai hefyd gynnwys mynedfa ar gyfer gwasanaethau a nwyddau.

> Dylai'r adeilad ystyried y golygfeydd allweddol tua'r safle, a'u terfynu.



3.6

Cais cynllunio

Byddai'r cynlluniau dadansoddi a'r cynllun fframwaith sy'n ymgodi o'r broses ddadansoddi yn ategu cais cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig gan y byddant yn dangos sut mae'r dyluniad wedi rhoi ystyriaeth i'r safle a'i gyd-destun. Gellir cyflwyno hyn yn y datganiad dylunio a mynediad (DDM).

Bydd cyflwyno dadansoddiad mewn cyfres o ddelweddau a chynlluniau hawdd eu darllen, fel yr enghreifftir yn yr astudiaethau achos, yn helpu'r darllenydd i ddeall y safle a'r agweddau sydd wedi ysgogi'r dyluniad. Dylid osgoi testun disgrifiadol, hir os nad yw'n ychwanegu gwerth at y graffigwaith a ddarperir.

Yn unol â'r canllawiau ar y DDM, dylai'r ddogfen fod yn glir, yn gryno, ac yn esboniadol. Mae'r ddogfen gyfarwyddyd hon yn darparu sail gadarn ar gyfer strwythuro'r adran arfarnu safle a chyd-destun yn y DDM, yn cynnwys esbonio lleoliad y safle, y weledigaeth ar gyfer y datblygiad, y dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun, a'r fframwaith dylunio. Mae'r cyfeiriadau at y pum amcan dylunio da a ddisgrifir yn TAN 12, ac a nodir yn Adran 2 o'r ddogfen, yn hwyluso cyfeirio hawdd wrth esbonio yn y DDM sut mae'r cynnig wedi ymateb i'r amcanion hyn.

“Rhaid i ddatganiad dylunio a mynediad...ddangos pa gamau a gymerwyd i arfarnu cyd-destun y datblygiad a'r modd y mae dyluniad y datblygiad yn cymryd y cyd-destun hwnnw i ystyriaeth..”

Y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

Darllen ychwanegol:

- *Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru*, 2014, CDC
- *Polisi Cynllunio Cymru*
- *TAN 12*



3.7

Canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol

Gall y canllawiau hyn fod yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol yn y cyd-destunau canlynol:

Briffiau dylunio/datblygu: dylai briff sy'n benodol i safle gael ei lywio gan ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun. Wrth baratoi neu gomisiynu briff dylunio neu datblygu, dylai'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod dadansoddiad trylwyr wedi cael ei gyflawni sy'n arwain i weledigaeth ar gyfer y safle ac egwyddorion dylunio fel y'u disgrifir yn y ddogfen hon. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn briodol cynhyrchu cynllun fframwaith dangosol fel y gwelir yn yr astudiaethau achos enghreifftiol.

Cyfarfodydd cyn ymgeisio: ar y cam cyn ymgeisio, gall y cwestiynau 'Pa Wahaniaeth?' ddarparu proc mewn trafodaethau gyda datblygwyr a dylunwyr i sicrhau eu bod wedi deall y safle a'i gyd-destun a'u bod yn ymateb i'r nodweddion unigryw a gyflwynir gan y safle. Lluniwyd y cwestiynau i sicrhau nad yw'r nodweddion wedi cael eu nodi yn unig, ond eu bod wedi cael eu dehongli a'u hystyried yn y cynigion ar gyfer y safle. Ni fydd yn ymarferol mynd drwy'r holl gwestiynau, felly dylid canolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf perthnasol i'r safle a'r datblygiad arfaethedig.

Cais cynllunio: wrth asesu golwg, swyddogaeth a graddfa'r datblygiad arfaethedig, a'i berthynas â'i amgylchoedd, mae'n rhaid nodi p'un ai fod dadansoddiad digonol o safle a chyd-destun wedi cael ei gynnal a'i ystyried. Er na fydd pob un o'r testunau a gwmpasir yn y ddogfen hon yn berthnasol i'r holl safleoedd, mae'n creu'r disgwyliad y gwneir dadansoddiad trwyadl ac esboniadol a ddylai fod yn amlwg mewn unrhyw gyflwyniad cynllunio.

Atodiadau

Atodiad 1

Darllen ychwanegol

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cam dadansoddi safle yn y broses ddylunio, ond mae'n rhagdybio gwerthfawrogiad o ddylunio da, ac ymroddiad iddo. Mae amrediad o ddogfennau sy'n egluro egwyddorion dylunio da nad ydynt wedi cael eu hailadrodd yma, ond y dylid cyfeirio atynt:

- **Polisi Cynllunio Cymru**
<http://gov.wales/docs/desh/publications/150924planning-policy-wales-edition-7-cy.pdf>
- **TAN 12: Dylunio**
<http://gov.wales/docs/desh/publications/140731technical-advice-note-12-cy.pdf>
- **Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy**
<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy>
- **Manual for Streets**
<https://www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets>
- **Model Design Guide for Wales**
http://cdn.dcfw.org.uk/posw_residential_guide1.pdf
- **Adeiladu am Oes 12 Cymru**
<http://dcfw.org/building-for-life-12-wales/>
- **Urban Design Compendium**
http://udc.homesandcommunities.co.uk/urban-design-compendium?page_id=&page=1
- **Rheoliadau Adeiladu Cymru**
<http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?lang=cy>
- **Shape My Town**
<http://www.shapemytown.org/>
- **Adolygu Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru - Beth, Pam a Sut**
<http://dcfw.org/design-and-access-statements-in-wales/>
- **Canllawiau Dylunio: Deddf Teithio Byw (Cymru) 2013**
<http://gov.wales/docs/det/publications/141209-active-travel-design-guidance-cy.pdf>

Mewn perthynas ag arolygon safle-benodol:

- **TAN 5: Natur Cadwraeth a Chynllunio**
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy>
- **TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed**
<http://gov.wales/docs/desh/policy/971001tan10cy.pdf>
- **TAN 11: Sŵn**
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan11/?lang=cy>
- **TAN15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd**
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=cy>
- **TAN18: Trafnidiaeth**
<http://gov.wales/docs/desh/publications/070301tan18cy.pdf>
- **Canllawiau Statudol Tir Halogedig Cymru (2012)**
<http://gov.wales/docs/desh/publications/130712contaminated-land-statutory-guidance-2012-en.pdf>
- **Map Cyngor Datblygu (DAM) Llywodraeth Cymru sy'n ategu TAN 15 a PCC**
<http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/>
- **Mapiau o'r perygl o lifogydd yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru.**
<https://www.naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy>
- **Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn i Gymru**
<http://gov.wales/docs/desh/publications/131217noise-action-plan-for-wales-cy.pdf>
- **Cadwraeth a Bioamrywiaeth**
<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/eiahome/?lang=cy>
- **Bioamrywiaeth**
<http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllunio>
- **Asesu Effeithiau Amgylcheddol**
<http://gov.wales/topics/planning/developcontrol/environmental-impact-assessment/?lang=cy>
- **Landscape Institute and the Institute of Environmental Management and Assessment, Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment**, GLVA, Routledge 2013, ISBN 978-0-415-68004-2
- **Environmental Site Layout Planning: Solar Access, Microclimate and Passive Cooling in Urban Areas**, BRE (2000)
- **Landmap**
<https://naturalresources.wales/planning-and-development/landmap/?lang=cy>

Darllen ychwanegol ar dechnegau a theori dadansoddi safle:


- Gerrit Schwalbach, *Urban Analysis*, (Basel: Birkhauser, 2009)
- Genevieve S. Baudoin, *Interpreting Site* (Efrog Newydd: Routledge, 2016)
- Eric Parry, *Context: Architecture and the Genius of Place* (Chichester: John Wiley & Sons Ltd, 2015)
- Marichela Sepe, *Planning and Place in the City: Mapping Place Identity* (Oxon: Routledge, 2013)
- Suzanne Ewing, Jeremie Michael McGowan, Chris Speed & Victoria Clare Bernie, *Architecture and Field/Work* (Oxon: Routledge, 2011)
- Caroline O'Donnell, *Niche Tactics: Generative Relationships Between Architecture and Site* (Efrog Newydd: Routledge, 2015)
- Christopher Tilley, *a phenomenology of landscape* (Rhydychen: Berg, 1994)

Atodiad 2

Offer dadansoddi a chyflwyno

Diagramau

Yn aml, y dull cliraf o gynrychioli'r wybodaeth a gesglir fel y gellir ei dehongli'n gyflym yw defnyddio diagramau. Gall diagram gael ei arosod ar fap, cynllun neu drychiad.



Ffig 10

Diagramau dadansoddi microhinsawdd, Porth Teigr, Bae Caerdydd, Penseiri Loyn & Co

Mapio

Mae mapiau yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ynghyd â bod yn ddull cydnabyddedig o gyflwyno dadansoddiad o safle. Gall fod yn ddefnyddiol wrth amlygu nodweddion penodol fel llwybrau, cyrsiau dŵr, ffiniau neu adeiladau.



Ffig 11

Dadansoddiad o ddŵr a mannau gwyrdd, mapiau dadansoddi graen trefol a llwybrau, Porth Teigr, Bae Caerdydd, Penseiri Loyn & Co

Mapiau hanesyddol

Gall darganfod sut mae lle wedi datblygu gydag amser trwy edrych ar fapiau hanesyddol ddarparu cliwiau ynglŷn â'r dull gorau o'i ddatblygu yn y dyfodol.

Gwefan/cofnodion Awdurdodau Cynllunio Lleol

Defnyddiwch adnoddau awdurdodau lleol ar-lein i ddod o hyd i gynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio blaenorol.

Ffotograffiaeth

Gall ffotograffau helpu i esbonio natur safle a chymeriad ei amgylchoedd. Gellir defnyddio ffotograffau i ddogfennu nodweddion penodol o'r safle sy'n creu cymeriad.



Datblygiad Bae Caerdydd



Awdurdod Porthladd a Doc - Strwythurau Diwydiannol



Awdurdod Porthladd a Doc - Strwythurau Diwydiannol



Tir Trefol Porth Teigr



Ffig 12

Dadansoddiad ffotograffig o safle a chyd-destun, Porth Teigr, Bae Caerdydd, Penseiri Loyn & Co

Golygfeydd o'r awyr

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o natur safle a'i amgylchoedd, gall defnyddio golygfeydd o'r awyr fod yn gynorthwyol.

Disgrifiadol

Gellir defnyddio geiriau i ychwanegu manylion at wybodaeth a gynrychiolir ar ffurf graffiau. Dylai'r disgrifiadau fod yn gryno, gan osgoi darnau hir o destun sy'n cymryd llawer o amser i'w darllen.

Cyfweliadau

Gall siarad â phobl leol fod yn fuddiol wrth chwilio am wybodaeth am le. Bydd gwneud yn siŵr bod y cyfweliadau'n cael eu cynllunio'n dda a'u bod yn ganolbwytiedig yn eu gwneud yn fwy defnyddiol.

Diolchiadau

Awduron:

Ymchwiliwyd, ysgrifennwyd a chrynowyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Tîm Prosiect CDC:

Jen Heal, Dylunydd Trefol, Cynghorydd Dylunio CDC;

Amanda Spence, Pensaer, Cynghorydd Dylunio CDC.

Arolygwyd a rheolwyd y prosiect ar ran CDC gan Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr Comisiwn Dylunio Cymru, a gan Max Hampton, Stuart Ingram a Jon Fudge ar ran Llywodraeth Cymru.

Astudiaethau achos:

Dyfeisiwyd a darluniwyd yr astudiaethau achos gan Annemarie de Boom, Cyfarwyddwraig, Studio Real.

Delweddau, diagramau a ffotograffau:

Caiiff delweddau eu cydnabod ble maent yn ymddangos, neu maent yn dod o lyfrgell ddelweddau CDC. Rydym yn ddiolchgar i'r holl gyfranwyr a ddarparodd ddeunydd esboniadol.

Cyfieithiad Cymraeg:

Llinos Jones

Dylunio:

Marc Jennings, Dylunio Graffig: www.theundercard.co.uk

